NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Abemaciclib gydag atalydd aromatase ar gyfer canser y fron datblygedig yn lleol neu fetastatig, sy'n dderbynnydd hormonau positif, HER2-negatif sydd heb ei drin yn flaenorol

27 Chwefror 2019

Mae abemaciclib (Verzenios), gydag atalydd aromatase, ar gael ar y GIG. Mae'n opsiwn posibl i oedolion â chanser datblygedig yn lleol neu fetastatig lle mae'r canlynol yn gymwys:

- mae'r canser yn dderbynnydd hormonau positif ac yn dderbynnydd ffactor twf epidermol pobl 2 (HER2)-negatif
- nid yw wedi'i drin gyda therapi endocrin yn flaenorol.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn fan da i gael gwybod mwy am ganser y fron ymhlith merched a dynion.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Breast Cancer Now, 0333 207 0300
- Gofal Canser y Fron, 0808 800 6000
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3275-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.